Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Erwhir**

**Cartref Preswyl Erwhir**
**29-30**
**Longacre Road**
**Caerfyrddin**
**SA31 1HL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/04/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Erwhir

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Towy Haven Care Homes Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17/01/2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Yn ddiweddar, trosglwyddwyd y gwasanaeth hwn i ofal darparwr a rheolwr newydd, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth. Mae prosesau monitro ac archwilio yn cael eu hatgyfnerthu. Mae rheolwr y gwasanaeth yn cael ei gefnogi'n dda, ac mae'r darparwr wedi cyflwyno ei gais i fod yn Unigolyn Cyfrifol ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth.

Mae cynlluniau gofal a chymorth y bobl, a gafodd eu hadolygu a'u diweddaru gan y rheolwr newydd, yn fanwl ac yn llwyddo i gyfleu'r unigolion a'u hanghenion yn dda. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl ac maent yn gwybod sut i'w cefnogi. Mae iechyd a llesiant unigol y bobl yn bwysig i'r rhai sy'n darparu'r gofal a'r cymorth. Mae cyfathrebu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol yn chwarae rôl bwysig o hyd er mwyn sicrhau bod y bobl yn parhau'n ddiogel a bod eu canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.

Mae'r amgylchedd yn helpu i sicrhau bod y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ddiogel ac mae gan y darparwr newydd gynlluniau i ailaddurno a gwella'r amgylchedd.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth mewn modd cynnes, ac maent yn deall yr unigolyn, ei anghenion a sut i'w diwallu yn dda. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn modd gofalgar ac ystyriol. Mae'r cofnodion gofal a'r asesiadau risg sydd wedi cael eu hadolygu gan y rheolwr newydd yn fanwl ac yn llwyddo i gyfleu'r unigolion yn dda. Mae'r rheolwr wedi sicrhau bod gweithwyr proffesiynol allanol yn cael eu cynnwys fel rhan o ofal a chymorth yr unigolion. Fel rhan o'r cynllun gweithredu manwl a gaiff ei chwblhau gan y rheolwr a'r darparwr, mae adolygiad â gweithwyr cymdeithasol/awdurdodau lleol wedi'i drefnu ar gyfer pob person er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion iechyd, llesiant a chymorth pob unigolyn yn gywir ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau.

Mae mesurau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio yn y cartref y sgiliau cywir a'u bod yn darparu gofal yn y dull cywir. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae'r darparwr a'r rheolwr newydd yn eu hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir a'u bod yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Gwelsom dystiolaeth, ers i'r darparwr newydd gymryd yr awenau, fod y rheolwr a'r darparwr/unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus. Mae'r rheolwr wedi cyflogi cydgysylltydd gweithgareddau er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl, a hynny yn y gwasanaeth a'r tu allan iddo. Gwelwyd y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod yr arolygiad ac yn eu mwynhau, a gwelsom fod digwyddiadau yn cael eu dathlu yn y cartref. Roedd paratoadau ar gyfer y Pasg yn mynd rhagddynt, ac roedd addurniadau drwy'r cartref a gweithgareddau wedi'u cynllunio.

Mae'r rheolwr yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ei ddefnyddio.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan weithwyr gofal sy'n deall eu hanghenion a'r ffordd orau o'u diwallu. Mae'r cofnodion gofal yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r rheolwr wedi trefnu adolygiadau llawn ar gyfer pob unigolyn er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol ac y caiff unrhyw atgyfeiriadau ychwanegol sydd eu hangen eu cwblhau. Cawsom gopi o'r cynllun gweithredu, sy'n dangos y bydd y rheolwr yn sicrhau y caiff cofnodion gofal pawb eu hadolygu bob tri mis neu pan fydd anghenion y bobl yn newid. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl, a chaiff hyn ei ddogfennu'n dda yn eu cofnodion gofal. Mae cyfathrebu rhwng pob parti yn bwysig er mwyn sicrhau bod y bobl yn parhau'n ddiogel a bod eu canlyniadau personol yn cael eu cyflawni.

Gwelsom y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn gwenu, yn chwerthin ac yn rhyngweithio â'r gweithwyr gofal. Dywedodd rhai o'r bobl wrthym cymaint y maent yn hoffi byw yn y cartref a'r cymorth gan y staff, a nodwyd ganddynt fod y cartref yn well nawr oherwydd bod gweithgareddau yno, a'u bod yn dod i'r lolfa yn amlach nawr. Mae'r gweithgareddau yn canolbwyntio ar yr unigolyn, cânt eu cydgysylltu a'u hadolygu gyda'r unigolion ac aelodau o'u teuluoedd. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn gynnes am ofalu am y bobl a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym "*It is lovely working here and supporting the people here, seeing them smile and enjoy different things is great*", "*It can be very challenging work, but it is well worth it*", a "*we do what we do for the people here, they are at the centre of everything and are the most important part of what we do*".

Mae'r gwasanaeth wedi cael sgôr bwyd o 5. Mae'r cogydd yn gwybod llawer am yr amrywiaeth o fwyd a'r dewisiadau sydd ar gael ac yn benodol i'r bobl.

Mae lefelau staffio digonol ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael digon o amser i gefnogi'r bobl yn briodol. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau gan y bobl yn amserol, ac mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar, yn barchus ac yn bwyllog.

Mae'r staff yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da. Mae'r gweithwyr gofal yn eu deall yn glir, ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu'r bobl rhag heintiau a niwed.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd sy'n cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae cynllun yr amgylchedd yn ei gwneud yn bosibl i'r bobl ddefnyddio’r cyfleusterau sydd ar gael iddynt yn ddiogel. Mae'r darparwr a'r rheolwr wedi cyflogi gweithiwr cynnal a chadw er mwyn sicrhau y caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw a'i fod yn cefnogi'r bobl sy'n byw yno. Caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr adeilad ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir yn ddiogel ac yn briodol i'w defnyddio.

Y tu allan i'r adeilad, mae ardal patio na ellir ei defnyddio ar hyn o bryd gan fod y perchennog blaenorol wedi ei defnyddio i storio hen ddarnau o bren a ffens. Mae'r darparwr a'r rheolwr newydd yn ymwybodol o'r mater hwn, ac mae'n rhan o'r cynllun gweithredu i gael gwared ar yr holl sbwriel a defnyddio'r ardal ar gyfer y bobl.

Caiff y bobl eu hannog i addurno eu ystafelloedd eu hunain yn ôl eu chwaethau a'u dewisiadau personol. Gwelsom un ystafell lle roedd llawer o eitemau personol i'w gweld. Caiff y bobl eu hannog i gael eitemau personol fel dodrefn, ffotograffau ac ornamentau yn eu hystafelloedd i'w gwneud mor gartrefol â phosibl.

Mae rhywfaint o waith addurno wedi cael ei wneud ond mae cynlluniau ar y gweill i wneud llawer mwy er mwyn gwella safon y cartref i safon y mae'r darparwr yn fodlon arni. Bydd hyn o fudd i'r bobl yn y cartref ac yn gwella'r amgylchedd. Mae system archwilio effeithiol ar waith i sicrhau y caiff unrhyw faterion eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw o fewn terfynau amser priodol.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith, ac mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol wrth roi gofal personol. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt a llofnodi i mewn ac allan.

Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunedol yn daclus heb unrhyw beryglon. Mae'r staff a'r rheolwyr yn rhoi mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn cael eu cefnogi gan dîm arwain a rheoli cryfach. Yn ddiweddar, trosglwyddwyd y gwasanaeth hwn i ofal darparwr a rheolwr newydd, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwasanaeth.

Mae'r darparwr/unigolyn cyfrifol newydd yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd a dywedodd y rheolwr a'r gweithwyr gofal wrthym ei fod ar gael pan fo angen cymorth. Mae'r darparwr wedi cwblhau'r cais i ddod yn unigolyn cyfrifol, ac mae AGC wrthi'n prosesu'r cais ar hyn o bryd.  Mae'r rheolwr a'r dirprwy wedi rhoi proses o waith monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n croesawu'r newidiadau o ran y darparwr a'r rheolwr, sy'n cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda ac sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywedodd y staff wrthym; "*Its great here now [manager]is a great manager and knows what needs doing. The difference in the home since the new owner and manager is amazing, people are much happier and staff are too*", "*I thoroughly enjoy working here now, I was looking to leave but not now it is so much better here*" a "*I feel the service is better since the new owner and management. It benefits people we support too as they are happier and having activities now as well as being encouraged to come from their rooms to the lounge. I have had supervision and have a clear picture of what I need to do (training) and what my role is, it is just so much better here now and is only going to get better".*

Mae'r rheolwr yn gweithio drwy ffeiliau'r staff ar hyn o bryd ac yn sicrhau bod ffeil papur ar gael a bod yr holl wybodaeth ofynnol am y staff ar gael ac yn gyfredol. Nid oedd gan y rheolwr blaenorol unrhyw ffeiliau papur, ac roedd yr holl wybodaeth yn cael ei storio ar-lein. Ond nid yw'r rheolwr newydd yn fodlon ar y system hon gan nad yw'n glir, ac na all fod yn sicr ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'r rheolwr wrthi'n cwblhau archwiliad ar hyfforddi y staff, ac esboniodd y byddai hyn yn ei alluogi i nodi pa hyfforddiant sydd ei angen a'i drefnu ar unwaith. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r rheolwr i roi matrics hyfforddiant ar waith, er mwyn gallu monitro'r holl hyfforddiant i sicrhau bod anghenion hyfforddiant y staff yn cael eu diwallu'n barhaus.

Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r polisi a'r weithdrefn diogelu a nodwyd ganddynt y byddent yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae'r darparwr a'r rheolwr newydd yn eu hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir a'u bod yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael eu goruchwylio bob chwarter ac mae bylchau mawr yn hyfforddiant y staff | Cyflawnwyd |
| 73 | Ni welsom unrhyw dystiolaeth nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi cwblhau ymweliad rheoliad 73 ers mis Mehefin 2021 | Cyflawnwyd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ers mis Mehefin 2021. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2023